

# Cymorth Ariannol a Gwobrau

Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau ar gyfer ymgeiswyr sy'n dechrau eu hastudiaethau yn 2023

# Cynnwys

**Arholiadau Mynediad – Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod**
(cyfle i ennill hyd at £1,000 y flwyddyn a gwarant o le i astudio yn Aberystwyth) 4-10

**Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Academaidd**
(£2,000 i ymgeiswyr sy'n rhagori yn eu hastudiaethau cyn dechrau yn y Brifysgol) 11

**Bwrsariaethau Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth**
(hyd at £2,400) 12

**Bwrsariaethau Nyrsio**
(Bwrsariaethau Llety ar gyfer ymgeiswyr Nyrsio) 12

**Gwobrau Adrannol**
(Amaeth, Cymraeg, Cyfrifiadureg, Ffiseg, Mathemateg) 13-14

**Ysgoloriaethau Chwaraeon**
(£1,000 y flwyddyn a manteision eraill, ar gyfer unrhyw gynllun gradd) 15

**Ysgoloriaethau Pêl-droed Prifysgol Aberystwyth/Tref Aberystwyth**
(£4,000 a manteision ychwanegol) 16

**Bwrsariaethau i'r rhai sy'n Gadael Gofal, Gofalwyr Ifanc a Myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio oddi wrth eu teuluoedd**
(£1,500 y flwyddyn a phecyn o gymorth ychwanegol) 17

**Ysgoloriaethau Cerdd**
(£650 y flwyddyn a manteision eraill, ar gael ar gyfer unrhyw gynllun gradd) 18-19

**Ysgoloriaethau Astudio trwy'r Gymraeg**
(hyd at £400 y flwyddyn ar gyfer astudio eich cwrs, neu ran o'ch cwrs, drwy gyfrwng y Gymraeg) 21

**Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
(Ysgoloriaethau ychwanegol am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg) 21

**Grant Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr**
(hyd at £1,500 ar gyfer ymgeiswyr o ardal De-ddwyrain Cymru) 22

**Cyflogaeth a Chymorth Ychwanegol**
(GwaithAber a'r Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian) 23

**Gwybodaeth Bwysig i'w nodi** 24

**Ysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau 2023**
Trosolwg 26-27

# Cyflwyniad

Gall astudio yn y brifysgol fod yn brofiad trawsnewidiol wrth i'ch dealltwriaeth o'ch pwnc ddyfnhau, ac wrth i chi wneud darganfyddiadau newydd a chwrdd â ffrindiau am oes. I nifer o fyfyrwyr, mae hefyd yn gyfnod o ddysgu byw'n annibynnol a rheoli cyllidebau.

Yn Aberystwyth rydym yn deall goblygiadau ariannol addysg uwch. Diolch i gefnogaeth hael cyn-fyfyrwyr a chyfeillion, rydym wedi gallu cynnig ysgoloriaethau ers 125 o flynyddoedd a mwy ac rydym yr un mor ymroddedig ag erioed i gefnogi ein myfyrwyr. Dyna'r rheswm dros roi pecyn hael o wobrau at ei gilydd a all eich helpu â chostau byw o ddydd i ddydd.

Nid ydym yn cyfyngu ar nifer y gwobrau y gallwch eu derbyn – cyn belled â'ch bod yn bodloni'r meini prawf, gallwch ddal sawl gwobr. Golyga hyn y gallwch gyfuno amrywiaeth o wobrau i wneud eich pecyn ariannol yn fwy gwerthfawr.

Mae gennym amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau i fodloni gofynion pawb – a'r newyddion da yw, yn wahanol i fenthyciad myfyriwr, nid oes raid i chi dalu'r arian yn ôl. Mae gennym wobrau ac ysgoloriaethau i wobrwyo rhagoriaeth academaidd, bwrsariaethau i gynorthwyo myfyrwyr o gefndiroedd dan anfantais, gwobrau ar gyfer doniau chwaraeon a cherddorol, a chymelliannau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Edrychwch i weld a allech chi elwa ar un neu fwy o'n gwobrau. Darllenwch drwy'r llyfryn i gael rhagor o wybodaeth a chysylltwch os oes gennych unrhyw gwestiynau.

**Yr Athro Elizabeth Treasure**
**Is-Ganghellor**



# Arholiadau Mynediad: Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod

### Beth yw'r Arholiadau Mynediad?

Mae Ysgoloriaethau Mynediad a Gwobrau Teilyngdod ar gael i ymgeiswyr ar gyfer unrhyw gynllun gradd yn Aberystwyth. Bydd yn rhaid i chi sefyll **dau** arholiad ar-lein o blith y pynciau a gynigiwn. Mae pob arholiad yn para awr a hanner. Caiff yr arholiadau eu gosod a'u marcio gan ein hadrannau academaidd, ac felly nid ydynt yn dilyn maes llafur penodol, ond dylai'r safon fod tua'r un safon ag arholiadau Safon Uwch.

### 1. Ysgoloriaethau'r Brifysgol – £1,000 y flwyddyn

Mae gennym 50 o Ysgoloriaethau'r Brifysgol i'w dyfarnu i'r ymgeiswyr sy'n cael y marciau cyfunol uchaf yn y ddau bapur arholiad. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn £1,000 ym mhob blwyddyn o'u cwrs. Mae enillwyr yr Ysgoloriaethau hyn hefyd yn cael gwarant o lety yn eiddo'r Brifysgol gydol eu cwrs, ynghyd â chynnig diamod i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth.*

### 2. Gwobrau Teilyngdod – £1,000 yn y flwyddyn gyntaf

Rydym yn cynnig tua 100 o Wobrau Teilyngdod bob blwyddyn i fyfyrwyr sy'n gwneud yn dda yn yr arholiadau ond yn methu o drwch blewyn â chael Ysgoloriaeth. Bydd deiliaid Gwobrau Teilyngdod yn cael £1,000 yn ystod blwyddyn gyntaf eu cwrs, ynghyd â chynnig diamod i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth.

### 3. Cynigion Diamod

Gall perfformiad cryf yn yr Arholiadau Mynediad beri bod y Brifysgol yn cadarnhau eich lle heb amodau pellach, gan arwain at gynnig UCAS diamod.

Mae'n bosib y bydd rhai ymgeiswyr nad ydynt yn derbyn gwobr yn cael cynnig diamod ar sail perfformiad cryf yn yr arholiadau.

* Er mwyn sicrhau eich gwarant o le yn un o neuaddau'r Brifysgol, rhaid i chi wneud cais am lety yn y flwyddyn academaidd nesaf erbyn y dyddiad a hysbysebir gan y Swyddfa Llety ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd.



# Pynciau Arholiad

**Rhaid sefyll yr Arholiadau Mynediad ar-lein mewn DAU o'r pynciau canlynol. Os na nodir yn wahanol, fe fydd cwmpas yr arholiad yn debyg i'r hyn a geir yn arholiadau Safon Uwch, ond nid ydynt yn dilyn unrhyw faes llafur penodol. Mae'n bwysig sicrhau bod y pynciau'n berthnasol i'r cynllun gradd a ddewiswyd.**

Gweler adran 'Strwythur yr Arholiadau a Chyn Bapurau' ar dudalennau gwe'r ysgoloriaethau ar gyfer gwybodaeth bellach am gynnwys pob papur, ac i edrych ar hen papurau arholiad: **www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau/papurau**

- Addysg ac Astudiaethau Plentyndod
- Almaeneg
- Amaethyddiaeth a Chefn Gwlad
- Astudiaethau Ffilm a Theledu
- Astudiaethau Gwybodaeth
- Bioleg 1: Moleciwlau i Organau
- Bioleg 2: Micro-Organebau i Ecosystemau
- Busnes a Rheolaeth
- Celf – Portffolio
- Cemeg
- Cyfrifeg a Chyllid
- Cyfrifiadureg
- Cymdeithaseg
- Cymraeg (Iaith Fodern)
- Cymraeg (Iaith Gyntaf)
- Daeareg
- Daearyddiaeth Ddynol
- Daearyddiaeth Ffisegol
- Drama ac Astudiaethau Theatr
- Economeg
- Ffiseg
- Ffotograffiaeth - Portffolio
- Ffrangeg
- Gwleidyddiaeth
- Gwleidyddiaeth Ryngwladol
- Gwyddor Anifeiliaid a Cheffylau
- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- Gwyddor yr Amgylchedd
- Hanes Celf
- Hanes – Ynysoedd Prydain
- Hanes – Ewrop ac America
- Mathemateg
- Mathemateg Bellach
- Saesneg: Llenyddiaeth
- Sbaeneg
- Seicoleg
- Technoleg Gwybodaeth
- Troseddeg
- Twristiaeth
- Y Gyfraith
- Ysgrifennu Creadigol (yn Saesneg)

### Dyddiad yr Arholiadau

**Dydd Iau, 9 Chwefror** ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll yr arholiadau yn yr ysgol/coleg

**Dydd Sadwrn, 11 Chwefror** ar gyfer ymgeiswyr sy'n dod i sefyll yr arholiadau ym Mhrifysgol Aberystwyth

Bydd ymgeiswyr fel arfer yn sefyll un papur yn ystod sesiwn y bore a'r llall yn ystod sesiwn y prynhawn. Mae amserlen yr arholiadau ar gael ar y wefan: **www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau/amserlen** Os yw'r ddau bwnc wedi'u hamserlennu ar gyfer yr un sesiwn byddwch yn sefyll un o'r papurau yn y bore a'r papur arall yn y prynhawn.

# Pa bynciau ddylen i eu dewis?

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer gwobr a/neu gynnig diamod mae'n bwysig dewis papurau arholiad sy'n dderbyniol i'r adran(nau) yr ydych wedi gwneud cais i astudio ynddi/ynddynt. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod wedi dewis pynciau derbyniol.

Gweler y wefan hefyd am fanylion pwysig am gynnwys papurau arholiad unigol: **www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau/papurau**

Os ydych chi'n gwneud cais am gwrs sy'n cynnwys blwyddyn sylfaen ac yn ansicr pa bynciau i'w dewis, anfonwch e-bost atom: **ysgoloriaethau@aber.ac.uk**

| Adran/Pwnc | |
|---|---|
| **Addysg ac Astudiaethau Plentyndod** | Mae'r papur arholiad yn addas ar gyfer ymgeiswyr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster Addysg neu Blentyndod a'r rheini sy'n ymddiddori yn y pwnc. Er bod ymgeiswyr i'r Adran yn cael eu hannog i ystyried dewis y papur hwn, mae unrhyw gyfuniad o bynciau yn dderbyniol. |
| **Astudiaethau Gwybodaeth** | Er bod ymgeiswyr Astudiaethau Gwybodaeth yn cael eu hannog i ddewis y papur Astudiaethau Gwybodaeth, mae unrhyw gyfuniad o bynciau yn dderbyniol. |
| **Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu** | Disgwylir i ymgeiswyr ar gyfer cwrs sengl neu gyfun mewn Drama ac Astudiaethau Theatr sefyll y papur Drama ac Astudiaethau Theatr ar gyfer un o'u dewisiadau. Disgwylir i ymgeiswyr ar gyfer cwrs sengl neu gyfun mewn Astudiaethau Ffilm a Theledu sefyll y papur arholiad Ffilm a Theledu ar gyfer un o'u dewisiadau. |
| **Celf (yn cynnwys Ffotograffiaeth)** | Rhaid i ymgeiswyr i gynlluniau gradd sy'n cynnwys Celfyddyd Gain neu Ffotograffiaeth gyflwyno Portffolio o'u gwaith celf/ffotograffiaeth fel un o'u Harholiadau Mynediad (gweler: **www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau/celf**). Rhaid i ymgeiswyr i gynlluniau gradd sy'n cynnwys Hanes Celf gymryd y papur Hanes Celf ar y cyd ag unrhyw bwnc arall. Rhaid i ymgeiswyr sydd â Chelfyddyd Gain a Hanes Celf yn eu cynllun gradd (er enghraifft BA Celfyddyd Gain / Hanes Celf) gyflwyno'r portffolio Celf Gain a'r papur Hanes Celf. |
| **Cyfrifiadureg** | Rhaid i ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais am gwrs sy'n cynnwys Cyfrifiadureg sefyll o leiaf un o'r papurau Cyfrifiadureg neu Dechnoleg Gwybodaeth. |
| **Cymdeithaseg** | Disgwylir i ymgeiswyr Cymdeithaseg sefyll y papur Cymdeithaseg ac unrhyw bapur arall o'u dewis. Byddem yn argymell ystyried y papurau Daearyddiaeth Ddynol a Seicoleg. |
| **Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear (yn cynnwys Gwyddor yr Amgylchedd)** | Disgwylir i ymgeiswyr ar gyfer Daearyddiaeth, Cymdeithaseg, Gwyddor Daear neu'r Amgylchedd sefyll o leiaf un papur a gynigir gan yr adran, yn cynnwys: Daearyddiaeth Ffisegol, Daearyddiaeth Ddynol, Daeareg, Gwyddor yr Amgylchedd, Cymdeithaseg. |



| Adran/Pwnc | |
|---|---|
| **Ffiseg** | Rhaid i ymgeiswyr ysgoloriaeth sy'n bwriadu astudio Ffiseg sefyll y papur Ffiseg ar gyfer un o'u dewisiadau. Os yw ymgeiswyr yn astudio Mathemateg Safon Uwch gellir dewis unrhyw bwnc arall ar gyfer yr ail bapur. Fodd bynnag, dylai ymgeiswyr nad ydynt yn astudio Mathemateg Safon Uwch ddewis Mathemateg ar gyfer yr ail bapur. |
| **Gwleidyddiaeth Ryngwladol** | Gofynnir i ymgeiswyr i'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol sefyll o leiaf un o'r papurau a gynigiwn: Gwleidyddiaeth a Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Er bod ymgeiswyr yn cael eu hannog i ystyried sefyll y ddau bapur, gellir dewis sefyll un o'r papurau hyn ac unrhyw bwnc arall. |
| **Gwyddorau Bywyd** | Dylai ymgeiswyr ddewis o leiaf un papur arholiad sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cwrs y maen nhw'n gwneud cais ar ei gyfer. Os yw ymgeiswyr yn ansicr ynghylch eu dewisiadau, gallant gysylltu â thîm derbyn myfyrwyr IBERS ar **ibrstaff@aber.ac.uk** am gyfarwyddyd. |
| **Hanes a Hanes Cymru** | Gofynnir i ymgeiswyr i'r Adran Hanes a Hanes Cymru sefyll o leiaf un o'r papurau a gynigiwn: Hanes - Ynysoedd Prydain neu Hanes - Ewrop ac America. Er bod ymgeiswyr yn cael eu hannog i ystyried sefyll y ddau bapur, gellir dewis sefyll un o'r papurau hyn ac unrhyw bwnc arall. |
| **Ieithoedd Modern** | Os yw ymgeiswyr yn astudio'r iaith fodern (Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg) hyd at lefel Safon Uwch, disgwylir iddynt ddewis yr iaith honno ar gyfer un o'u dewisiadau. |
| **Mathemateg** | Rhaid i ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais am gwrs sy'n cynnwys mathemateg* sefyll y papur Mathemateg ar gyfer un o'u dewisiadau.<br><br>* Ceir rhestr o gyrsiau sy'n cynnwys mathemateg ar-lein **https://cyrsiau.aber.ac.uk/subject/mathematics** |
| **Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol** | Disgwylir i ymgeiswyr i'r Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol sefyll un neu ddau o'r papurau a gynigiwn: Ysgrifennu Creadigol (yn Saesneg) a Llenyddiaeth Saesneg. Er bod ymgeiswyr yn cael eu hannog i sefyll y ddau bapur, gellir dewis sefyll un o'r papurau hyn ac unrhyw bwnc arall. |
| **Seicoleg** | Dylai ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais i'r Adran Seicoleg gymryd y papur Seicoleg fel un o'u dewisiadau. |
| **Y Gyfraith** | Er bod ymgeiswyr i Adran y Gyfraith a Throseddeg yn cael eu hannog i ystyried dewis papurau y Gyfraith / Troseddeg, mae unrhyw gyfuniad o bapurau yn dderbyniol. |
| **Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd** | Gall y rheini sydd am wneud cais i astudio Cymraeg ddewis un o ddau bapur ysgoloriaeth, sef naill ai papur Cymraeg Iaith Fodern yn achos myfyrwyr ail iaith, neu papur Cymraeg Iaith Gyntaf yn achos myfyrwyr iaith gyntaf. |
| **Ysgol Fusnes** | Er bod ymgeiswyr i'r Ysgol Fusnes yn cael eu hannog i ystyried dewis y papur ar gyfer y pwnc y maen nhw wedi gwneud cais ar ei gyfer, mae unrhyw gyfuniad o bynciau yn dderbyniol. |



## Sut i wneud cais

- Gallwch wneud cais yn hawdd drwy'r Ffurflen Gais ar ein gwefan. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 29 Ionawr 2023 ac ni chaiff ceisiadau hwyr eu hystyried.
- Cewch e-bost gennym yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich ffurflen gais. Cysylltwch â ni os na fyddwch wedi cael cadarnhad drwy e-bost ar ôl cyflwyno eich ffurflen. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn brawf bod eich cais wedi dod i law, ac ni fydd modd i ni unioni unrhyw broblemau yn ddiweddarach.

## Trefniadau Penodol

**Rhaid i ymgeiswyr sy'n dod i'r Brifysgol i sefyll yr arholiadau a chanddynt ofynion arholi penodol ar gyfer eu harholiadau arferol yn yr ysgol (e.e. amser ychwanegol) gyflwyno e-bost gyda'u cais oddi wrth eu hysgol yn cadarnhau'r gofynion hynny.** Fel arfer caiff ymgeiswyr cymwys 25% o amser ychwanegol, a'r un trefniadau ag yn eu harholiadau arferol yn yr ysgol/coleg.

Gweler ein polisi ar wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll yr Arholiadau Mynediad, sydd ar ein gwefan.





## Lle y cynhelir yr arholiadau

Gellir sefyll yr arholiadau naill ai:

- Yn yr ysgol/coleg (ar ddydd Iau, 9 Chwefror)
- Ym Mhrifysgol Aberystwyth (ar ddydd Sadwrn, 11 Chwefror)
- Tu allan i'r DU mewn ysgol ryngwladol, neu Swyddfeydd y Cyngor Prydeinig (ar ddydd Iau, 9 Chwefror)

**Cyn cyflwyno'ch ffurflen gais**, rhaid cael caniatâd eich Swyddog Arholiadau a sicrhau eu bod yn fodlon ac yn gallu gwneud y trefniadau angenrheidiol. Bydd angen eu henw a'u cyfeiriad e-bost arnom fel rhan o'r broses ymgeisio.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd cysylltu â'i Swyddog Arholiadau **cyn** diwrnod yr arholiadau i sicrhau bod y trefniadau priodol wedi'u gwneud (ynglŷn ag ystafell yr arholiad, goruchwylio ac ati). Ni fydd modd unioni camgymeriadau a ddaw i sylw'r Brifysgol ar ôl amserlen yr arholiadau.

**Sylwer:** Er bod yn rhaid i chi fod wedi gwneud cais i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth erbyn y dyddiad cau, nid oes rhaid i chi gael cynnig gennym cyn i chi sefyll yr Arholiadau.

## Trefn yr Arholiadau

Cynhelir yr arholiadau ar-lein a bydd angen defnydd o gyfrifiadur eich ysgol/coleg gyda Microsoft Word, cysylltiad â'r rhyngrwyd, a phorwr gwe Chrome (neu Firefox) er mwyn cael mynediad at y papurau arholiad a'u cyflwyno. Byddwch chi, a'ch ysgol/coleg, yn derbyn cyfarwyddiadau llawn. Yr eithriad yw:

- Mathemateg a Mathemateg Bellach, lle bydd angen eu lawrlwytho, eu cwblhau ar bapur, eu sganio ac i'r Swyddog Arholiadau eu he-bostio atom.

## Ymgeiswyr Hŷn

Croesewir ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn, ond sylwer na chaiff ymgeiswyr fod wedi bod yn fyfyrwyr gradd yn unrhyw brifysgol am fwy nag un semester unrhyw bryd yn y gorffennol.

## Gohirio Mynediad

Os ydych yn bwriadu gohirio eich cais i'r Brifysgol cewch sefyll yr arholiadau a gohirio unrhyw ddyfarniad law yn llaw â'ch mynediad gohiriedig i'r Brifysgol. Cewch hefyd ddewis sefyll yr arholiadau yn ystod eich blwyddyn allan.

## Canlyniadau

Caiff y canlyniadau eu hanfon at ymgeiswyr a'u Swyddogion Arholiadau oddeutu 4-6 wythnos ar ôl yr arholiadau. Os cewch gynnig Ysgoloriaeth neu Wobr Teilyngdod, bydd angen i chi nodi Aberystwyth fel dewis cadarn drwy UCAS er mwyn derbyn y wobr ariannol (nodir yr unig eithriadau yn y Telerau ac Amodau ar y wefan).

### Talu'r Gwobrau

Telir eich arian yn syth i'ch banc drwy BACS mewn dau randaliad ym mhob blwyddyn gymwys – y cyntaf ddechrau mis Rhagfyr, a'r ail ddechrau mis Mawrth. Yn ystod y flwyddyn gyntaf yn unig y gwneir taliadau'r Gwobrau Teilyngdod.

### Gwybodaeth ar gyfer Ysgolion a Cholegau

Ceir gwybodaeth am drefniadau'r arholiadau a'r hyn sy'n ofynnol gan Swyddogion Arholiadau ar ein gwefan:
**www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau/ysgolion**

Anfonir deunyddiau'r arholiadau at y Swyddog Arholiadau enwebedig oddeutu wythnos cyn yr arholiadau.

Ni chodir tâl am sefyll yr Arholiadau Mynediad, ond ni fydd y Brifysgol yn gallu cyfrannu at unrhyw gostau goruchwylio neu archebu ystafelloedd. Bydd trefniadau arholiadau arferol yn berthnasol.

### Cymwynaswyr

Mae modd i ni gynnig ein Hysgoloriaethau Mynediad drwy roddion hael nifer o gymwynaswyr dros y blynyddoedd. Nid oes raid gwneud cais am Ysgoloriaeth benodol – os bydd eich canlyniadau'n ddigon uchel byddwn yn dyfarnu Ysgoloriaeth addas i chi. Fodd bynnag, dylech roi gwybod i ni os ydych chi'n fab i Weinidog Anghydffurfiol ac felly'n gymwys i gael eich ystyried am Ysgoloriaeth Goffa David Morgan Thomas o Caterham.

**www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau/rhodd**

Gweler y wefan am Delerau ac Amodau llawn ar gyfer yr Arholiadau Mynediad:
**www.aber.ac.uk/mynediad-teilyngdod**

## Elen Haf Roach



Cymraeg Proffesiynol
**Gwobr Teilyngdod, Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Academaidd**
Hwlffordd, Sir Benfro

Er bod yr Arholiadau Mynediad yn heriol, roeddynt yn ymarfer da ar gyfer fy arholiadau Safon Uwch. Roeddwn yn teimlo anrhydedd mawr wrth ennill Gwobr Teilyngdod. Yna, oherwydd fy nghanlyniadau Safon Uwch, cefais Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Academaidd hefyd - doedd dim angen hyd yn oed ymgeisio am yr ysgoloriaeth hon. Rwy'n defnyddio'r arian ar gyfer prynu gwerslyfrau ac ymuno â gweithgareddau UMCA.



# Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Academaidd £2,000

Er mwyn gwobrwyo rhagoriaeth academaidd a gyflawnwyd cyn dechrau yn y Brifysgol, mae'n bleser gennym gynnig Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Academaidd gwerth £2,000 yn y flwyddyn gyntaf o astudio i ymgeiswyr o'r DU sy'n cael o leiaf:

- Graddau AAA yn yr arholiadau Safon Uwch*
- DDD yn y BTEC Diploma Estynedig Lefel 3
- 34 pwynt yn y Fagloriaeth Ryngwladol
- Ystyrir cymwysterau ychwanegol sy'n cyfateb i 144 o bwyntiau tariff UCAS.

Nid oes raid gwneud cais, bydd y gwobrau'n cael eu clustnodi'n awtomatig i'r myfyrwyr cymwys.

* Mae'n bosibl y derbynnir gradd A yn Niploma Uwch Bagloriaeth Cymru, a fydd yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, yn lle un o'r graddau Safon Uwch.

## Ffion Evans

Daearyddiaeth
**Gwobr Teilyngdod, Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Academaidd, Ysgoloriaeth Astudio trwy'r Gymraeg**
Llanybydder, Ceredigion

Dwi wedi bod yn ddigon ffodus i dderbyn sawl ysgoloriaeth. Rwyf yn hynod falch o gael derbyn yr arian sydd wedi bod yn help gyda chostau byw cyffredinol ac wedi fy ngalluogi i brynu deunyddiau addysgol. Roedd hi'n hawdd i ymgeisio am yr ysgoloriaethau ac mi fydden i yn annog unrhyw un i wneud hynny.



# Bwrsariaethau Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth hyd at £2,400

Mae ymgeiswyr am y cwrs Milfeddygaeth (BVSc) yn dilyn llwybr penodol ar gyfer bwrsariaethau. Mae'n bleser felly gennym gynnig y canlynol:

- Bwrsariaethau Cyflawniad - i fyfyrwyr sy'n dangos y gallant gyflawni'n academaidd a dangos arweiniad a gwasanaeth y tu allan i amgylchedd academaidd ar yr un pryd
- Bwrsariaethau Gweledigaeth - i fyfyrwyr sydd wedi cyflawni'n helaeth ac a all fynegi gweledigaeth glir ar gyfer datrys heriau sy'n wynebu'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru
- Bwrsariaethau Sbardun - agored i ymgeiswyr am radd Milfeddygaeth a gafodd eu haddysg uwchradd yng Nghymru
- Bwrsariaethau Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg - i fyfyrwyr sy'n astudio 5 credyd neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg
- Bwrsariaethau sy'n dibynnu ar brawf modd, yn seiliedig ar asesiad o incwm yr aelwyd
- Bwrsariaethau Dwyieithog Astudiaethau Efrydiau Allanol (EMS) - i fyfyrwyr sy'n gwneud lleoliad gwaith mewn amgylchedd Cymraeg neu ddwyieithog Cymraeg/Saesneg am o leiaf 6 wythnos

Anogir myfyrwyr i ymgeisio am gynifer o fwrsariaethau ag y dymunant ond mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i flaenoriaethu ceisiadau gan fyfyrwyr a fu'n aflwyddiannus yn flaenorol.

Mae myfyrwyr sy'n cofrestru ar y cwrs Milfeddygaeth (BVSc) hefyd yn cael manteisio ar y gwasanaethau a gynigir gan ein Gwasanaeth Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd, yn cynnwys y Gronfa Caledi.

# Bwrsariaethau Nyrsio £3,500

Rydym yn falch o gynnig 2 Fwrsariaeth Llety i ymgeiswyr i'n cyrsiau BSc Nyrsio Oedolion a BSc Nyrsio Iechyd Meddwl.

Rhaid i ymgeiswyr fod yn byw mewn mannau penodol yng Nghymru
(gweler y wefan am fanylion).

Bydd y fwrsariaeth yn rhoi gostyngiad o £3,500 oddi ar gost llety mewn eiddo prifysgol ar gyfer y flwyddyn gyntaf o astudio.





# Gwobrau Adrannol

**Y mae nifer o'n hadrannau academaidd yn cynnig Gwobrau Adrannol, a gallwch ddal y rhain yn ogystal â nifer o'n Gwobrau eraill. Manylion llawn a'r ffurflenni cais i'w gweld yn: www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau**

## Adran Cyfrifiadureg

**Ysgoloriaethau Adrannol i astudio Cyfrifiadureg**

**Anrhydedd Sengl:** £500 y flwyddyn
**Anrhydedd Cyfun:** £250 y flwyddyn

Mae hyd at dair ysgoloriaeth ar gael i fyfyrwyr sy'n ennill graddau rhagorol yn yr Arholiadau Mynediad, neu sydd wedi llwyddo i gael graddau rhagorol (A*) yn eu harholiadau Safon Uwch neu gymwysterau cyfatebol. Gwerth y wobr yw £500 y flwyddyn gydol eich cwrs gradd (tair neu bedair blynedd), sy'n rhoi cyfanswm o hyd at £7,500 (o gynnwys Ysgoloriaeth Cyfadran y Brifysgol).

Er mwyn parhau i dderbyn y wobr rhaid i chi gael 70% neu fwy ar gyfartaledd yn eich arholiadau bob blwyddyn. Mae myfyrwyr anrhydedd cyfun yn gymwys i gael £250 y flwyddyn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Adran Cyfrifiadureg: **cs-admissions@aber.ac.uk**

## Adran Mathemateg

**Ysgoloriaethau Adrannol i astudio Mathemateg**

**Anrhydedd Sengl:** £500 y flwyddyn
**Prif bwnc cwrs Prif bwnc/Is-bwnc:** £500 y flwyddyn
**Anrhydedd Cyfun:** £250 y flwyddyn

I fod yn gymwys, mae'n rhaid i ymgeisydd naill ai ennill Ysgoloriaeth Mynediad y Brifysgol, neu lwyddo i gael gradd A* yn eu harholiadau Safon Uwch mewn Mathemateg. Gwerth y wobr yw £500 y flwyddyn ar gyfer ymgeiswyr am gyrsiau anrhydedd sengl a chyrsiau prif/is-bwnc (gyda mathemateg yn brif bwnc), a £250 y flwyddyn i ymgeiswyr am gyrsiau anrhydedd cyfun. Dyfernir y wobr yn awtomatig i fyfyrwyr sy'n cyflawni'r meini prawf uchod, a chedwir y wobr os ydych yn llwyddo i gael cyfartaledd o 70% neu uwch yn eich modiwlau Mathemateg bob blwyddyn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Adran Mathemateg: **maths-admissions@aber.ac.uk**

## Adran Ffiseg

**Ysgoloriaethau Adrannol i astudio Ffiseg**

**Anrhydedd Sengl:** £500 y flwyddyn
**Anrhydedd Cyfun:** £250 y flwyddyn

I fod yn gymwys, mae'n rhaid i ymgeisydd naill ai ennill Ysgoloriaeth Mynediad y Brifysgol, neu lwyddo i gael o leiaf dwy radd A yn eu Safon Uwch, a rhaid i un ohonynt fod mewn Ffiseg neu Fathemateg. Gwerth y wobr yw £500 y flwyddyn am gyfnod eich cwrs (tair/pedair blynedd), sy'n rhoi cyfanswm o hyd at £7,500 (yn cynnwys Ysgoloriaeth Cyfadran y Brifysgol).

Gallwch gadw'r wobr os ydych yn llwyddo i gael cyfartaledd o 70% neu uwch yn arholiadau eich modiwlau bob blwyddyn. Mae myfyrwyr anrhydedd cyfun yn gymwys i gael £250 y flwyddyn. I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Adran Ffiseg: **phys@aber.ac.uk**



### Ysgoloriaeth Amaeth y CLA a Phrifysgol Aberystwyth

£3,000 dros gyfnod y cwrs

Mae Ymddiriedolaeth Elusennol y Gymdeithas Tirfeddianwyr Cefn Gwlad (CLA) yn cynnig hyd at 2 ysgoloriaeth i gefnogi myfyrwyr sy'n dymuno gwneud cais i astudio cyrsiau Amaethyddol ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae Ymddiriedolaeth Elusennol y CLA yn arbennig o awyddus i gefnogi unigolion sy'n gallu dangos diddordeb nodedig mewn Polisi Amaethyddol a materion eraill a fydd yn llywio dyfodol y diwydiant amaethyddol ledled Cymru a'r DU.

### Bwrsariaeth Margaret Evelyn "Lynne" Williams

£500 yn y flwyddyn gyntaf

Bwrsariaeth o £500 yn y flwyddyn gyntaf i hyd at ddau ymgeisydd i Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd. Rhaid i ymgeiswyr fod wedi mynychu'r ysgol uwchradd yng Ngheredigion, Sir Gâr neu Abertawe.

### Ysgoloriaeth Emily Price

£500 yn y flwyddyn gyntaf

Sefydlwyd yr Ysgoloriaeth hon gan deulu a ffrindiau cyn-fyfyrwraig, Emily Price, i wobrwyo merched sy'n ymgeisio am gyrsiau Mathemateg a Ffiseg (yn cynnwys anrhydedd cyfun Mathemateg/Ffiseg) yn Aberystwyth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dangos addewid academaidd a brwdfrydedd ar gyfer cynyddu nifer y merched sy'n astudio Mathemateg a/neu Ffiseg. Telir yr Ysgoloriaeth yn ystod y flwyddyn astudio gyntaf.

### Bwrsariaeth Waldo Williams

£500 yn y flwyddyn gyntaf

Bwrsariaeth o £500 yn y flwyddyn gyntaf i hyd at ddau ymgeisydd i Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd. Mae'r Fwrsariaeth yn agored i siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith ac mae'n seiliedig ar gyflwyno darn o waith sy'n gysylltiedig â gwaith Waldo Williams.



## Ysgoloriaethau Chwaraeon £1,000 y flwyddyn

Anelir yr Ysgoloriaethau Chwaraeon at fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yn y DU/UE ac sy'n gallu dangos tystiolaeth o gyflawniadau diweddar o safon uchel ym maes chwaraeon ac ymrwymiad i ddatblygu perfformiad.

Fel rhan o'n hymrwymiad i gefnogi athletwyr medrus iawn i sicrhau cydbwysedd rhwng chwaraeon ac astudio, rydym wedi nodi rhai 'chwaraeon ffocws' allweddol lle gallwn gynnig arbenigedd penodol.

Wrth ddatblygu nifer o bartneriaethau cyffrous gydag arbenigwyr yn eu maes, gallwn hwyluso mynediad i addysg hyfforddi arbenigol a chyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer y chwaraeon hyn yn agos at Aberystwyth.

- Pêl-droed
- Beicio mynydd
- Pêl-rwyd
- Rygbi
- Cerdyn Gwyllt - os ydych yn rhagori mewn camp wahanol, y gallwn ei hwyluso yma yn y Brifysgol, efallai fod opsiwn y Cerdyn Gwyllt yn addas i chi

Mae Ysgoloriaethau Chwaraeon ar gael i fyfyrwyr sy'n gwneud cais am UNRHYW bwnc amser llawn yn Aberystwyth.

### Manteision yr Ysgoloriaethau Chwaraeon yw:

- £1,000 y flwyddyn (hyd at 5 ar gael bob blwyddyn)
- Rhaglen gymorth wedi'i theilwra yn benodol i'ch camp
- Aelodaeth Blatinwm rad ac am ddim yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol am bob blwyddyn astudio
- Sicrwydd o lety mewn Neuadd Breswyl neu eiddo a weinyddir gan y Brifysgol am y cwrs cyfan*

*Er mwyn cadarnhau eich gwarant o le yn llety'r Brifysgol, mae'n rhaid i chi wneud cais am lety ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol o fewn y dyddiadau a hysbysebir gan y Swyddfa Llety ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd.

### Sut i Wneud Cais

- Dylai myfyrwyr wneud cais trwy UCAS erbyn 30 Mehefin 2023 a nodi Aberystwyth yn ddewis 'Cadarn'.
- Bydd angen i fyfyrwyr gwblhau'r ffurflen gais ar-lein erbyn 30 Mehefin 2023.
- Gellir gwahodd ymgeiswyr i gyfweliad er mwyn trafod eu cais ymhellach.

Gellir dal Ysgoloriaeth Chwaraeon ar y cyd ag unrhyw wobr arall.

Gellir cael hyd i fanylion llawn a'r ffurflen gais ar-lein yma: **www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau**

## Gwobrau Teilyngdod Chwaraeon £500

Os ydych yn rhagori yn eich maes chwaraeon ar ôl cyrraedd Prifysgol Aberystwyth, gallech wneud cais ar gyfer Gwobr Teilyngdod Chwaraeon yn eich ail flwyddyn neu flwyddyn astudio ddilynol. £500 yw gwerth y gwobrau, ac aelodaeth Blatinwm yn rhad ac am ddim yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol am flwyddyn academaidd.

# Ysgoloriaethau Pêl-droed Prifysgol Aberystwyth / Tref Aberystwyth £4,000

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr o'r DU sy'n gwneud cais i astudio'n llawn-amser ar gyfer gradd mewn unrhyw bwnc (israddedig neu uwchraddedig). Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn chwarae i Glwb Pêl-droed Tref Aberystwyth neu Glwb Pêl-droed Menywod Aberystwyth yn Uwch-gynghrair Cymru a hefyd i dîm pêl-droed BUCS Prifysgol Aberystwyth pan fo'n briodol.

RHAID bod ymgeiswyr wedi cyrraedd safon chwarae yn Uwch-gynghrair Cymru neu safon gyfatebol o leiaf (Cynghrair Genedlaethol Vanarama yn Lloegr).

### Ymhlith y manteision y mae:


- £4,000 yn ystod y flwyddyn gyntaf
- Aelodaeth Blatinwm o Ganolfan Chwaraeon Prifysgol Aberystwyth yn rhad ac am ddim
- Cyfleoedd datblygu hyfforddiant pêl-droed gyda Chlwb Pêl-droed Tref Aberystwyth ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UM PA)
- Yswiriant meddygol drwy UM PA
- Mynediad at ffisiotherapi Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth
- Citiau gemau a hyfforddiant Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau - 15 Gorffennaf 2023.

Gellir cael hyd i fanylion llawn a'r ffurflen gais ar-lein yma: **www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau**

Mae croeso i ymgeiswyr gysylltu â'r Clwb er mwyn trafod yr Ysgoloriaeth ymhellach: **abertownfc@live.co.uk**

Ni ellir dal yr Ysgoloriaeth hon ac Ysgoloriaeth Chwaraeon Prifysgol Aberystwyth, ond gellir ei dal gydag unrhyw un o'r gwobrau israddedig eraill a gynigir. Cynghorir ymgeiswyr uwchraddedig i gadarnhau drwy'r Swyddfa Derbyn Graddedigion a fyddai effaith ar unrhyw wobrau Uwchraddedig.



Mathew Jones

Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
**Ysgoloriaeth Pêl-droed Prifysgol Aberystwyth / Tref Aberystwyth, Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Academaidd**
Aberystwyth

Byddwn yn argymell bod unrhyw bêl-droedwyr dawnus sydd â diddordeb mewn dod i astudio yn Aber yn gwneud cais am Ysgoloriaeth Clwb Pêl-droed Aber. Roedd y broses ymgeisio yn syml, ac mae derbyn yr Ysgoloriaeth wedi helpu i dynnu'r straen allan o ariannu fy amser yn y Brifysgol, a gallu parhau i chwarae pêl-droed i safon uchel.



# Bwrsariaethau i'r rhai sy'n Gadael Gofal, Gofalwyr Ifanc a Myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd £1,500 y flwyddyn

**Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymwybodol o'r anawsterau ariannol a wynebir gan fyfyrwyr sy'n mynd ymlaen i addysg uwch a fu mewn gofal, neu'r rhai a chanddynt gyfrifoldebau gofalu, neu sydd wedi'u dieithrio oddi wrth eu teuluoedd neu eu gwarcheidwaid. Er mwyn lleddfu'r pwysau ariannol, mae'n dda gennym gynnig cymorth ariannol o £1,500 y flwyddyn, ynghyd â phecyn cymorth helaeth ar gyfer myfyrwyr cymwys. Mae'r pecyn yn cynnwys:**

- cyfraniad tuag at gostau teithio os byddwch yn ymweld â ni
- cynnig yn is na'n cynnig safonol
- mynediad i'n Cronfa Caledi
- gwarant o lety yn llety'r Brifysgol am 52 wythnos o'r flwyddyn (yn ôl yr angen)
- pecyn croeso pan fyddwch yn cyrraedd, yn cynnwys hanfodion fel dillad gwely ac offer cegin
- mentor i gefnogi'ch cyfnod pontio o'r ysgol i'r Brifysgol
- cyngor gyrfaoedd a phrofiad gwaith
- gostyngiad oddi ar y ffioedd dysgu os ydych yn parhau i astudio ar gwrs uwchraddedig yn Aberystwyth yn syth ar ôl graddio

Ceir manylion llawn am wneud cais, y dystiolaeth ategol sydd ei hangen arnom, a ffurflen gais ar ein gwefan: **www.aber.ac.uk/ymadawyrgofal**

Gallwch hefyd anfon e-bost atom: **ysgoloriaethau@aber.ac.uk**

Gellir dal y fwrsariaeth yma ar y cyd ag unrhyw wobr arall.

# Ysgoloriaethau Cerdd

£650 y flwyddyn

Un o gryfderau Aberystwyth yw'r bywyd cerddorol gwych sydd yma. Er nad oes modd gwneud gradd gerddoriaeth yn y Brifysgol mwyach, rydym yn dal i werthfawrogi pwysigrwydd bwrlwm y gymuned gerddorol. Rydym yn cynnig cyfle i bob myfyriwr chwarae, dysgu a mwynhau cerddoriaeth ochr yn ochr â'u hastudiaethau.

Rhoddir Ysgoloriaethau Cerdd (4 ar gael bob blwyddyn) i gerddorion profiadol a all wneud cyfraniad ymarferol i gerddorfeydd, bandiau, corau ac ensembles y Brifysgol. Cânt eu dyfarnu ar sail clyweliad cystadleuol i fyfyrwyr newydd mewn unrhyw ddisgyblaeth (israddedig neu uwchraddedig) ac fe'u dyfernir am hyd y cwrs.

### Manteision:

- Aelodaeth rad ac am ddim o'r holl ensembles cerddorol (gan gynnwys cerddorfeydd, bandiau ac ati)
- Cyfle i ddefnyddio adnoddau ymarfer a llyfrgell ac adnoddau priodol eraill yn rhad ac am ddim
- Sicrwydd o lety mewn eiddo a reolir gan y Brifysgol am hyd y cwrs*

* Er mwyn sicrhau eich lle mewn Neuadd, mae'n rhaid i chi wneud cais am lety ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf o fewn y dyddiadau a hysbysebir gan y Swyddfa Llety i fyfyrwyr sy'n dychwelyd.

### Sut i ymgeisio:

- Rhaid ymgeisio i'r Brifysgol a nodi Aberystwyth fel dewis cadarn
- Rhaid cwblhau a chyflwyno ffurflen gais ar-lein erbyn 30 Mehefin 2023
- Rhaid i ymgeiswyr a gaiff wahoddiad fod ar gael am glyweliad ar adeg sy'n gyfleus i bawb
- Mae'r Ysgoloriaethau ar gael i offerynwyr a chantorion cymwys o bob gwlad, yn unol â'r hyn a nodir yn y rheoliadau

Ceir manylion llawn ar ein gwefan **www.aber.ac.uk/cy/music** neu drwy gysylltu â: **music@aber.ac.uk**

## Rhodri Rutherford

Philomusica a Chantorion y Brifysgol
**Ysgoloriaeth Gerdd – Clarinet a Llais**

Mae derbyn yr Ysgoloriaeth Gerdd wedi bod yn brofiad anhygoel i mi. Dwi wedi cael y cyfle i chwarae nifer helaeâth o ddarnau cerddorol gan amryw o gyfansoddwyr. Yn ogystal, mae fy sgiliau darllen a chwarae cerddoriaeth wedi datblygu wrth i mi fagu hyder.

Mae'r Ganolfan Gerdd yn darparu ystod eang o grwpiau cerddorol, gyda rhywbeth at ddant pawb. Mae'r teimlad o ymuno â chymuned gerddorol yn un hyfryd gan eich bod yn cwrdd â phobl sy'n rhannu'r un diddordebau a phrofiadau. Mae'n ffordd arbennig o dda o gael seibiant o'r cwrs i ymlacio a mwynhau. Mae hefyd yn sicrhau cydbwysedd amser o ran bywyd prifysgol, sy'n allweddol.







## Ysgoloriaethau Astudio trwy'r Gymraeg

hyd at £400 y flwyddyn

Mae cynnydd sylweddol yn y galw am sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle yng Nghymru.

Er mwyn annog mwy o'n myfyrwyr i fanteisio ar y cyfle i ddysgu a datblygu'r sgiliau hyn, rydym yn cynnig Ysgoloriaethau i'r rhai sy'n dilyn o leiaf ran o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dyfernir Ysgoloriaethau'n awtomatig i fyfyrwyr cymwys. Bydd manylion y modiwlau cymwys ar gael wrth gofrestru ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

- £400 i fyfyrwyr sy'n astudio 85+ o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg
- £350 i fyfyrwyr sy'n astudio 65-84 o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg
- £300 i fyfyrwyr sy'n astudio 45-64 o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg
- £250 i fyfyrwyr sy'n astudio 25-44 o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg
- £200 i fyfyrwyr sy'n astudio 5-24 o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg

## Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**Corff annibynnol yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n gyfrifol am gynllunio a chyllido darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sector addysg uwch gyfan mewn partneriaeth â holl brifysgolion Cymru.**

Mae'r Coleg yn cynnig Ysgoloriaethau er mwyn rhoi cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid ymaelodi â'r Coleg i wneud cais. Ewch i wefan y Coleg i gael mwy o fanylion. Mae'n bosibl dal Ysgoloriaeth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar y cyd ag unrhyw wobrau o Brifysgol Aberystwyth.

Gweler: **www.colegcymraeg.ac.uk/cy**



# Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr, Aberystwyth (Cangen Caerdydd) hyd at £1,500

Grant gwerth rhwng £500 a £1,500, sy’n daladwy mewn dau swm cyfartal ym mlwyddyn academaidd gyntaf y myfyriwr yn Aberystwyth. Croesewir ceisiadau gan fyfyrwyr sy’n ddisgyblion mewn ysgol neu goleg yn ardal de-ddwyrain Cymru.

Anfonir manylion pellach at ymgeiswyr cymwys erbyn canol mis Mawrth 2023.



Mae’r wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar ein gwefan:
**www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau**

# Cyflogaeth a Chymorth Ychwanegol

### GwaithAber

Mae’r cyfleoedd am waith rhan-amser, achlysurol drwy GwaithAber yn amrywio o arlwyo a gwaith gweinyddol, i waith llysgenhadol a mwy. Yn ystod y tymor, os oes gwaith ar gael, gallwch ddewis gweithio hyd at 15 awr yr wythnos, a rhagor o oriau’n bosibl yn ystod y gwyliau. Gallai’r gwaith fod wedi’i leoli ar unrhyw un o gampysau’r Brifysgol gan gynnwys yr Hen Goleg a’n Ffermydd.

Yr hyn sy’n wych am y cynllun yw eich bod yn gallu derbyn gwaith sy’n cyd-fynd â’ch amserlen chi, felly nid yw’n tarfu ar eich astudiaethau, ond fe fyddwch chi’n parhau i feithrin profiad a chael arian ychwanegol.

**www.aber.ac.uk/gwaithaber**

### Y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian

Mae’r Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian o fewn y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn rhoi cyngor arbenigol am amrywiaeth o faterion ariannol. Bydd modd i’n hymgynghorwyr myfyrwyr, sydd wedi’u hachredu gan NASMA (Cymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Ariannol Myfyrwyr), wneud yn siŵr eich bod yn cael popeth o fewn eich hawliau gan eich corff cyllido. Gallant hefyd roi cyngor ar sut i reoli eich arian yn fwy effeithiol ac efallai y bydd modd iddynt roi cymorth ariannol ar gyfer amgylchiadau annisgwyl.

**www.aber.ac.uk/cy/student-support**



# Gwybodaeth bwysig i'w nodi:

### Cynlluniau Wrth Gefn

Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar bob rhan o'n bywydau, gan gynnwys arholiadau. Os bydd cyfyngiadau oherwydd y firws yn tarfu ar yr Arholiadau Mynediad, mae gennym gynlluniau wrth gefn ar waith. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau nad oes unrhyw ymgeisydd o dan anfantais ond gall amgylchiadau olygu bod angen rhywfaint o hyblygrwydd.

1. Mae'n bosibl dal Ysgoloriaeth Mynediad neu Wobr Teilyngdod ynghyd ag unrhyw un, neu bob un, o'n gwobrau eraill.
2. Mae i bob Ysgoloriaeth a Bwrsariaeth eu telerau ac amodau eu hunain, sydd ar gael yma: **www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau**
3. Bydd myfyrwyr sy'n gohirio mynediad yn derbyn Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau ar y lefel a hysbysebwyd ar gyfer y flwyddyn gais.
4. Mae'r gwobrau'n daladwy i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd lawn yn unig (nid i'r sawl sydd wedi trosglwyddo i flynyddoedd 2 neu 3 o'r cwrs).
5. Bydd y taliadau'n para tra bydd myfyriwr yn dal y wobr, yn amodol ar fodloni'r rheoliadau (os bydd blwyddyn yn cael ei hail-wneud ni wneir taliadau, ac eithrio Bwrsariaeth Aberystwyth).
6. Dim ond yn y blynyddoedd pan fo'r myfyriwr yn talu ffioedd llawn y caiff taliadau Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau eu gwneud (ni fydd taliadau'n cael eu gwneud yn ystod blynyddoedd tramor fel rhan o'r cwrs neu yn ystod blynyddoedd mewn diwydiant).
7. Fel arfer, gwneir taliadau ddwywaith y flwyddyn yn syth i gyfrifon banc y myfyrwyr. Cyfrifoldeb y myfyrwyr unigol yw darparu manylion dilys y banc pan ofynnir iddynt amdanynt. Os nad ydynt yn rhoi'r manylion hynny erbyn y dyddiad penodedig, ni fydd yr arian yn cael ei dalu. Os na ddarperir manylion cyfrif banc erbyn y dyddiad penodedig, ni fydd gan ddeiliad y grant hawl i dderbyn taliad y flwyddyn honno. Gall taliadau blynyddoedd diweddarach barhau os bydd deiliad y grant yn darparu manylion ei gyfrif banc erbyn y dyddiadau penodedig ar gyfer y blynyddoedd hynny.
8. Bydd taliadau i fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl dros dro yn ailgychwyn o ddechrau'r tymor llawn nesaf pan ailgychwynnant ar eu hastudiaethau (ni fydd unrhyw daliadau sy'n weddill o'r tymor pan dynnant yn ôl yn cael eu talu).
9. Mae'n bwysig cofio, os y byddwch mewn dyled i'r Brifysgol, y bydd taliadau'r Ysgoloriaeth neu Fwrsariaeth yn cael eu dal yn ôl a'u defnyddio yn erbyn y ddyled.
10. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl o'u hastudiaethau am byth cyn Rhagfyr 1af, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio'r cyfan o'r taliad cyntaf yn ôl. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl am byth rhwng Rhagfyr 1af a Mawrth 2il, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio yn ôl y cyfan o'r ail daliad. O dan yr amgylchiadau hyn, os nad yw'r symiau yn cael eu had-dalu, mae'n bosibl y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion y Brifysgol.
11. Mae'r wybodaeth a geir yn y llyfryn hwn yn berthnasol i fyfyrwyr a fydd yn ymgymryd â'u hastudiaethau yn Aberystwyth yn unig, ac nid yw'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio rhaglenni breiniol neu raglenni wedi'u dilysu a gyflwynir gan bartneriaid.





# Ysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau 2023

**Rydym yn cynnig ystod hael o Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau i gefnogi'ch costau astudio a byw. Mae'n bosibl dal nifer o'r gwobrau hyn gyda'i gilydd i wneud eich pecyn ariannol chi'n fwy gwerthfawr.**

| Enw'r Wobr | Gwerth | Pwy all ymgeisio? | Meini Prawf | Pryd i wneud cais | Ffurflen ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgoloriaethau Mynediad** | • Hyd at £1,000 y flwyddyn<br>• Cynnig diamod<br>• Sicrwydd o lety mewn Neuadd Breswyl neu eiddo a weinyddir gan y Brifysgol trwy gydol y cwrs | Ymgeiswyr Israddedig | • Rhaid sefyll dau arholiad mewn dau bapur gwahanol<br>• Cynhelir yr arholiadau ym mis Chwefror a rhaid eu sefyll mewn ysgol neu goleg yn y DU, neu mewn canolfan arholi achredig | Erbyn 29 Ionawr | Oes, ar-lein |
| **Gwobrau Teilyngdod** | • £1,000 yn y flwyddyn gyntaf<br>• Cynnig diamod | | | | |
| **Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Academaidd** | • £2,000 yn y flwyddyn gyntaf | Ymgeiswyr o'r DU | Ymgeiswyr a gafodd ganlyniadau rhagorol cyn dechrau yn y Brifysgol | Dim angen ymgeisio | Nac oes |
| **Bwrsariaethau Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth** | • Hyd at £2,400 | Ymgeiswyr i Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth | Amrywio | Gweler y wefan | Oes |
| **Bwrsariaethau Llety Nyrsio** | • Llety yn eiddo'r brifysgol yn eich blwyddyn gyntaf | Ymgeiswyr am gyrsiau Nyrsio Oedolion a Nyrsio Iechyd Meddwl | Rhaid byw mewn ardal benodol o Gymru. Cynigir y Bwrsariaethau i'r myfyrwyr cymwys cyntaf sy'n cadarnhau eu lle ar y cwrs. | | Nac oes |
| **Gwobrau Adrannol** | • £250 - £1,000 y flwyddyn | Ymgeiswyr ar gyfer Amaeth, y Gymraeg, Cyfrifiadureg, Ffiseg, a Mathemateg | Gweler y tudalennau perthnasol | | |






| Enw'r Wobr | Gwerth | Pwy all ymgeisio? | Meini Prawf | Pryd i wneud cais | Ffurflen ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgoloriaeth Emily Price** | • £500 | Ymgeiswyr benywaidd ar gyfer Mathemateg/Ffiseg sy'n dangos addewid academaidd ac angerdd am eu pwnc | | Erbyn 31 Ionawr | Oes |
| **Bwrsariaeth Margaret Evelyn "Lynne" Williams** | • £500 | Ymgeiswyr i Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd (sy'n dod o Geredigion, Sir Gâr neu Abertawe) | | Erbyn 31 Ionawr | Oes |
| **Bwrsariaeth Waldo Williams** | • £500 | Ymgeiswyr i Adran y Gymraeg | Siaradwyr a dysgwyr Cymraeg | Erbyn 31 Ionawr | Oes |
| **Ysgoloriaethau Chwaraeon** | • £1,000 y flwyddyn<br>• Aelodaeth Blatinwm yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol<br>• Pecyn o fuddion sy'n gysylltiedig â'ch camp | Ymgeiswyr o'r DU/UE yn cynnwys uwchraddedigion | • Rhaid gwneud cais i Aberystwyth erbyn 30 Mehefin, a nodi Aberystwyth yn ddewis 'Cadarn'<br>• Rhaid cyflawni holl deleriau'r cynnig yn llawn | Erbyn 30 Mehefin | Oes |
| **Ysgoloriaethau Pêl-droed Prifysgol Aberystwyth/ Tref Aberystwyth** | • £4,000 y flwyddyn ynghyd â buddiannau ychwanegol | Ymgeiswyr o'r DU yn cynnwys uwchraddedigion | Rhaid bod gan ymgeiswyr brofiad o chwarae pêl-droed i lefel Prif Gynghrair Cymru neu lefel gyfatebol | Erbyn 15 Gorffennaf | Oes |
| **Bwrsariaethau Gadael Gofal, Gofalwyr Ifanc a Myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio oddi wrth eu teulu** | • £1,500 y flwyddyn | Myfyrwyr y DU sydd â phrofiad o un o'r categorïau hyn | Mae manylion llawn cymhwysedd a'r dystiolaeth sydd ei hangen ar ein gwefan | Ar ôl derbyn cynnig cadarn, neu yn ystod blwyddyn gyntaf y cwrs | Oes |
| **Ysgoloriaethau Cerdd** | • £650 | Holl ymgeiswyr yn cynnwys uwchraddedigion | Cerddorion talentog | 30 Mehefin | Oes |
| **Ysgoloriaethau Astudio trwy'r Gymraeg** | • Hyd at £400 y flwyddyn | Myfyrwyr ar gyrsiau cymwys sy'n astudio nifer penodedig o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg | | Ystyrir ymgeiswyr yn awtomatig | Nac oes |
| **Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol** | • Fel arfer hyd at £3,000 | Ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg | Gweler gwefan y Coleg | Dyddiadau gwahanol yn dibynnu ar y wobr | Rhaid ymaelodi â'r Coleg Cymraeg |

Am ragor o wybodaeth, ewch i’n gwefan:
**www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau**

111506-1022

**Yr Adran Marchnata a Denu Myfyrwyr**
Adeilad Cledwyn,
Campws Penglais,
Prifysgol Aberystwyth,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3DD.




+44 (0) 1970 62 2065 ysgoloriaethau@aber.ac.uk

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%